

## MAE ADDYSG RAN-AMSER YN BWYSIG

“ Nid dysgu rhan-amser yw'r Brifysgol Agored, ond dysgu amser dwbl... mae pobl wedi rhoi addysg uwchlaw'r llawer o flaenoriaethau sy'n bodoli eisoes mewn bywydau sydd yn aml yn gymhleth ac yn llawn straen ”

Y Canghellor y Farwnes Baroness Martha Lane-Fox

# Yn y rhifyn hwn o Drws Agored

- 3 Agor y Dyfodol**  
Y wybodaeth ddiweddaraf am yr Ymgyrch
- 4 Mae Addysg Ran-amser yn Bwysig**  
Mae'r Brifysgol Agored yn sicrhau y caiff ei llais ei glywed wrth gefnogi addysg ran-amser
- 7 Ymweliad Brenhinol**  
Tîm ACI yn mwynhau ymweliad â Phalas Buckingham
- 8 Cronfa Ysgoloriaethau Cyn-filwyr Anabl**  
Y myfyrwyr cyntaf yn dechrau ar eu taith
- 9 Cofio ein Cyn-fyfyrrwyr**  
Digwyddiad gardd waddol yn Walton Hall
- 10 Prosiect Deep Blue**  
Mae Dyfodol Ein Cefnforoedd bellach yn dibynnu arnom ni
- 11 Her Anhygoel i Un o Raddedigion Y Brifysgol Agored**  
Antoine Cousot yn hwylio o amgylch y byd ar ei ben ei hun



## Croeso a diolch am eich holl gymorth



Croeso i'r rhifyn diweddaraf o Drws Agored. Mae'r hydref yn golygu dechrau taith addysgol newydd i lawer o bobl – ac ar yr adeg hon, rwy'n meddwl yn benodol am ein myfyrwyr yma yn Y Brifysgol Agored wrth iddynt ddechrau ar eu

modiwl nesaf neu efallai gymryd y camau cyntaf tuag at radd sydd, yn aml, yn rhywbeth y maent wedi dyheu amdano ers amser hir. Rwy'n edrych ymlaen yn barod at groesawu myfyrwyr heddiw i gymuned cyn-fyfyrrwyr y Brifysgol pan fyddant yn graddio rhyw ddydd!

Caiff rhai o'r myfyrwyr hynny eu cefnogi drwy haelioni anhygoel rhoddwyr fel chi - p'un a fydd hynny drwy Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau, cymorth ychwanegol

ar gyfer myfyrwyr anabl neu leoedd a ariennir ar gyfer astudiaethau maes hollbwysig; fel mae ein hymgyrch codi arian yn ei nodi, rydych yn helpu i "Agor y dyfodol" iddynt.

Rwyf am ddiolch i chi am y rhan rydych yn ei chwarae wrth gefnogi ein myfyrwyr gan eu galluogi i ddechrau ar y daith ddysgu arbennig honno.

Hebdoch chi, ni fyddai llawer o bobl hyd yn oed yn gallu ystyried cymryd y camau cyntaf. Rydych yn helpu i wireddu breuddwydion ein myfyrwyr – yn eu helpu i gyflawni eu nodau a'u potensial llawn. Diolch!

Karen Hart  
Dirprwy Gyfarwyddwr Datblygiad:  
Ymgysylltu â Chyn-fyfyrrwyr

# AGOR Y DYFODOL



Yn 2016, roedd Y Brifysgol Agored yn falch o lansio ei hymgyrch codi arian gyntaf: **Agor y dyfodol**. Gwnaeth y Brifysgol, gan weithio mewn partneriaeth â chyn-fyfyrwyr, rhoddwyr, cyfeillion a chefnogwyr bennu her uchelgeisiol i'w hun i godi £50 miliwn. Mae'r Ymgyrch yn cyd-daro ag adeg dathlu 50 mlynedd ers sefydlu'r Brifysgol y flwyddyn nesaf.

Ers ei sefydlu yn 1969 mae mwy na 2 filiwn o ddysgwyr wedi cofrestru ar gwrs neu fodiwl gyda'r Brifysgol Agored ac mae wedi cyrraedd 19 miliwn ychwanegol drwy lwyfannau ar-lein megis OpenLearn a FutureLearn. Mae'r bartneriaeth hir sefydledig â'r BBC wedi rhoi cyfleoedd digynsail i rannu'r rhodd o addysgu, yn wreiddiol drwy ddarlithoedd cwrs ac yn fwy diweddar drwy raglenni amser brig, nodedig megis *Blue Plant II* a *Coast*.

Mae'r Brifysgol Agored hefyd wedi chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ymchwilio i'n cefnforoedd, ein planed a'r gofod, gan fod yn rhan o deithiau i'r blaned Mawrth a glanio ar gomedau. Mae'r gwaith ymchwil a wnaed nid yn unig wedi newid bywydau, ond mae wedi achub bywydau hefyd, gydag ymchwil i ganfod canser drwy ei rhaglen Rhyngweithio Cyfrifiadurol i Anifeiliaid a defnyddio technoleg cyffyrddiadol er mwyn helpu'r rhai sy'n goroesi strôc i wella.

Mae Agor y dyfodol yn ein galluogi i fyfyrio ar 50 mlynedd o gyflawniadau. Yn bwysicaf oll, mae'n gyfle sylweddol i gyfuno pŵer addysg, ymchwil a dyngarwch er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddyfodol llawer o bobl.

**Mae'r Ymgyrch wedi canolbwyntio ar bedwar maes allweddol, agor Meddyliau, Bywydau, Cyfleoedd a Meddwl, ac wrth i ni gyrraedd hanner ffordd drwy'r ymgyrch, rydym yn hynod ddiolchgar a balch o gyhoeddi ein bod wedi codi mwy na £29 miliwn. Rydym ond wedi gallu cyflawni hyn o ganlyniad i haelioni rhoddion a gafwyd gan gyfeillion, cefnogwyr, ein partneriaid corfforaethol, ymddiriedolaethau, sefydliadau a mwy na 15,000 o gyn-fyfyrwyr.**

Dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf, mae'r Ymgyrch wedi cyflawni llawer, gan gynnwys sefydlu'r Gronfa Ysgoloriaethau Cyn-filwyr Anabl a'r Gronfa Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau ar gyfer y myfyrwyr hynny y mae angen cymorth ariannol arnynt er mwyn manteisio ar addysg. Mae cymorth rhoddwyr wedi helpu i ddarparu ein rhaglenni addysgu yn Affrica Is-law'r Sahara ac India, i gynnig cyfleoedd sydd wir yn newid bywydau i filiynau o blant ysgol drwy ddarparu'r hyfforddiant a'r adnoddau addysgol y mae eu dirfawr angen ar athrawon er mwyn addysgu'n effeithiol.

Mae'r Ymgyrch wedi cefnogi ymchwil flaengar o'r radd flaenaf a fydd yn helpu i lunio'r dyfodol. Ymchwil sy'n cwmpasu ein bywydau o ddydd i ddydd, ein gofalwyr, ein plant, ein cefnforoedd, ein planed a llawer mwy.

Diolch i'r rhai sydd wedi bod ar y daith hon gyda ni. Gyda'n gilydd, byddwn yn Agor y dyfodol i lawer o bobl.



Sefydlwyd yn  
**1969**

Mwy na  
**2**




filiwn o ddysgwyr



Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu i gefnogi ein hymgyrch Agor y dyfodol, ewch i [giving.open.ac.uk](https://giving.open.ac.uk) a helpwch ni i wneud yr amhosibl yn bosibl

# NID DYSGU RHAN-AMSER, OND DYSGU AMSER DWBL



“Mae’n rhaid i Lywodraeth y DU unioni’r methiant i fynd i’r afael â’r gostyngiad brawychus yn nifer y myfyrwyr sy’n dewis astudio’n rhan-amser yn ei hadolygiad o gyllid myfyrwyr Ôl-18,” meddai Is-Ganghellor Dros Dro y Brifysgol Agored, Mary Kellett, mewn datganiad diweddar. Pan lansiodd y Prif Weinidog adolygiad mawr o addysg Ôl-18 yn Lloegr yn gynharach eleni, roedd Y Brifysgol Agored yn arwain y blaen o ran rhannu straeon ein myfyrwyr a’u profiadau.

Er bod gan bob un o’n myfyrwyr stori wahanol i’w hadrodd, yr un peth y mae gan bob un ohonynt yn gyffredin yw eu bod wedi astudio’n rhan-amser, a heb y cyfle hwn, ni fyddent wedi gallu manteisio ar addysg. Ac rydym yn achub ar bob cyfle i gyfleu hyn – ni waeth gyda phwy rydym yn siarad, ar ba lefel bynnag – ac rydym yn sicrhau y caiff ein llais ei glywed!



**Fel rhan o’r frwydr dros addysg ran-amser, mae’r Brifysgol Agored wedi bod yn galw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno Cymhelliant Dysgu Hyblyg er mwyn helpu myfyrwyr aeddfed i ddychwelyd i astudio. ♡♡**

*Mary Kellett, Is-Ganghellor Dros Dro*

“Mae disgwyl i’r panel adolygu annibynnol gyhoeddi adroddiad interim erbyn diwedd y flwyddyn, gydag adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi gan y Llywodraeth ar ddechrau 2019, ond mae’n amlwg bod pawb yn wahanol o ran addysg. Fel y gwyddoch, mae gan bob un ohonom ffyrdd gwahanol o weithio, a daw llwyddiant ar sawl ffurf wahanol.”

Gyda 76% o fyfyrwyr yn astudio wrth weithio, mae’r

Brifysgol Agored yn deall nad yw bob tro’n hawdd cyfuno swydd, teulu a chyfrifoldebau eraill ag astudio. Nod Y Brifysgol Agored yw darparu’r dysgu hyblyg gorau posibl - gan sicrhau ei fod ar gael pryd a ble y mae’r myfyrwr ei eisiau, p’un a yw hynny’n golygu gwranddo ar ddarlith tra allan yn loncian, yn hwyrr gyda’r nos ar liniadur neu ar y trêrn wrth deithio i’r gwaith.

Mae llawer o bobl yn ymwybodol o’r ffaith mai’r Brifysgol Agored sy’n arwain y ddadl ar werth astudio rhan-amser. Ers i’r newidiadau i gyllid gael eu cyflwyno, cafwyd gostyngiad yn niferoedd y myfyrwyr rhan-amser, ond mae’r Brifysgol Agored yn benderfynol o ailgynnu diddordeb ac annog hyd yn oed mwy o fyfyrwyr i gredu bod yr amhosibl yn bosibl.

Mae’r gallu i astudio’n rhan amser yn hanfodol i lawer o bobl. Roedd Beth Purvis am newid ei gyrfa ar ôl gadael y gwaith i fagu teulu. Dechreuodd ar ei gradd gyda’r Brifysgol Agored wrth ofalu am ei phlant yn llawn amser, “Roedd gennyf ddiddordeb yn y gyfraith erioed, ond heb gymwysterau Safon Uwch, doeddwn i ddim



**Roedd astudio gyda’r Brifysgol Agored yn golygu y gallaf weithio’n llawn amser a threfnu fy astudiaethau o amgylch gweddill fy mywyd. ♡♡**

*Beth Purvis*

yn credu y gallwn i ddilyn gyrfa nac astudio yn y maes hwn. Yna, drwy lwc, darganfyddais Y Brifysgol Agored.”

Dechreuodd Beth gyda chwrs Mynediad ac roedd wir wedi mwynhau hyblygrwydd dysgu o bell, ac ymhen dim, dechreuodd ei Gradd Baglor yn y Gyfraith. Pan ddechreuodd plant Beth yn yr ysgol, dechreuodd wirfoddoli gyda'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth cyn dechrau gweithio fel Paraglyfreithiwr. Cwblhaodd Beth ei LLB yn ddiweddar, gan ennill gradd 2:1. Mae newydd gofrestru ar Gwrs Ymarfer Cyfreithiol gyda'r nod o wneud cais ar gyfer contractau hyfforddi er mwyn cymhwyso fel Cyfreithiwr; yr yrfa yr oedd am ei dilyn erioed.

Fel rhan o'n cenhadaeth gynhwysol, mae'r Brifysgol Agored yn canolbwyntio ar sicrhau bod astudio'n fforddiadwy i fyfyrwyr rhan-amser ym maes addysg uwch, er mwyn hyrwyddo dewis go iawn, cystadleuaeth a gwerth am arian, fel y gall myfyrwyr, fel Beth gyflawni'r gyrfaoedd y maent wedi bod eisiau eu dilyn erioed heb gyfaddawdu.



“Nid dysgu rhan-amser yw'r Brifysgol Agored, ond dysgu amser dwbl... mae pobl wedi rhoi addysg uwchlaw'r llawer o flaenoriaethau sy'n bodoli eisoes mewn bywydau sydd yn aml yn gymhleth ac yn llawn straen. Edrychwch ar eu hwynebau pan fyddant yn cerdded ar draws y llwyfan i gasglu eu tystysgrifau a byddwch yn gweld yr emosiwn, y rhyddhad a'r ymrwymiad ym mhob un ohonynt.”

*Y Canghellor y Farwnes Martha Lane-Fox yn ei datganiad diweddar yn Nhŷ'r Arglwyddi*



### Everson Mpofu

Pan ystyriodd Everson sut y gallai wella ei sgiliau proffesiynol, gwyddai nad oedd mynychu prifysgol gonfensiynol yn opsiwn gan fod ganddo swydd llawn amser a thri o blant. Diolch i hyblygrwydd Y Brifysgol Agored, gallodd ddilyn ei astudiaethau heb esgeuluso galwadau gwaith a theulu.

Fel ymgynghorydd, mae'n gweithio i ffwrdd yn ystod yr wythnos, a phan mae'n dychwelyd adref ar y penwythnos, roedd yn awyddus i ganolbwyntio ar ei deulu ifanc.

“Roedd y cwrs gradd a ddewisais yn un a oedd yn unol â'm gyrfa broffesiynol ac roedd yn gyfuniad gwych o theori ac ymarfer. Drwy astudio gyda'r Brifysgol Agored, dysgais sut i fyw a dysgu! Roedd yn rhaid i mi reoli adnoddau wrth wynebu galwadau digyfaddawd ar fy amser, arian a deallusrwydd. Gwnaeth fy nghydweithwyr fy helpu, yn enwedig mewn meysydd astudio lle roedd angen arolygon, barn a dadansoddi defnyddwyr. Newidiodd fy ngyrfa drwy'r adeg tra roeddwn yn astudio, gan fod pob sgil newydd roeddwn yn ei dysgu yn cael ei rhoi ar waith yn syth.

Mae strwythur a diwylliant Y Brifysgol Agored yn unigryw ac mae ei dulliau hygyrch i unrhyw un sy'n anelu at lwyddiant. Drwy gydol yr holl fodiwlau, daeth pob tiwtor yn ffrind i mi – roeddent yn anhygoel! Rwyf bellach yn ystyried gradd Feistr ac yn ystyried archwilio gorwelion newydd.”

Gan ddefnyddio bron i 50 mlynedd o arbenigedd a gwybodaeth, rydym wedi datblygu cyfres o fesurau cefnogol rydym yn credu y byddant yn gwella'r system Ôl-18 gyfan, ac rydym yn eu hargymell i'r panel adolygu. Mae ein hargymhellion yn cynnwys y canlynol:

- Creu dewis hyddysg i bawb: Datblygu system ragorol o wybodaeth, cyngor a chanllawiau personol ar gyfer pob darpar fyfyrwr - oedolion sy'n gweithio sy'n awyddus i ddysgu ar yr un pryd yn ogystal â'r rhai sy'n gadael ysgol
- System hyblyg: Un sy'n galluogi astudiaethau i gael eu trefnu o amgylch bywydau prysur, yn trosglwyddo credydau dysgu o un darparwr i'r llall ac yn cyflwyno system gyllido hyblyg sy'n seiliedig ar gredydau sy'n galluogi pobl i astudio mewn cyfnodau bach.
- Llwybrau dilyniant: Atgyfnerthu llwybrau rhwng Addysg Bellach, prentisiaethau ac Addysg Uwch er mwyn gwella sgiliau technegol.
- Hyblygrwydd a Phrentisiaethau: Helpu cyflogwyr a myfyrwyr, gwella hyblygrwydd yr Ardoll Prentisiaethau.

Bydd Y Brifysgol Agored yn parhau i frwydro dros addysg ran-amser, gan wneud astudio yn fforddiadwy ar gyfer myfyrwyr rhan-amser ym maes addysg uwch. Byddwn bob amser yn ymdrechu i hyrwyddo dewis gwirioneddol a gwerth am arian, ond, yn fwy na dim, i fod yn gynhwysol.



Ar adeg lle mae pwysau cynyddol ar y farchnad lafur, addysg uwch rhan-amser yw'r ateb o ran cau'r bwlch sgiliau sy'n cyfyngu ar gynhyrchiant. ”

Mary Kellett, Is-Ganghellor Dros Dro

Yn agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau, byddwn bob amser yn hyrwyddo cyfleoedd addysgol a chyfiawnder cymdeithasol drwy gynnig addysg brifysgol o'r safon uchaf i bawb sy'n dymuno cyflawni eu huchelgais a'u potensial.



Mae

38%

o fyfyrwyr israddedig rhan-amser y DU yn astudio gyda ni

Mae

76%

o'n myfyrwyr yn gweithio'n llawn amser neu'n rhan-amser yn ystod eu hastudiaethau



Darllenwch fwy am straeon Mae Addysg Ran-Amser yn Bwysig a rhannwch eich stori eich hun

[alumni.open.ac.uk](http://alumni.open.ac.uk)

## AGORWCH EICH GWEFAN NEWYDD I GYN-FYFYRWYR



### COFRESTRU:

- Dysgwch fwy a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ymgyrchoedd presennol
- Hawdd cael gafael ar wybodaeth a sut i roi

- Newyddion gwych am ymgyrchoedd llwyddiannus rydych wedi'u cefnogi
- Darllenwch straeon ysbrydoledig gan gyd-fyfyrwyr a'r gwahaniaeth y mae cymorth ariannol wedi'i wneud i'w bywydau



DIWEDDARWCH EICH MANYLION



NEWYDDION A DIGWYDDIADAU



RHANNWCH EICH STORI



Dechreuwch arni heddiw

[alumni.open.ac.uk](http://alumni.open.ac.uk)

# YMWELIAD BRENHINOL I GŴN SY’N CANFOD CANSER



Ym mis Mehefin 2018, gwahoddyd Dr Clara Mancini, Pennaeth Labordy Rhyngweithio Cyfrifiadurol i Anifeiliaid Y Brifysgol Agored, i wrandawriad â’r Frenhines ym Mhalas Buckingham i ddatlu 10 mlynedd ers sefydlu elusen Medical Detection Dogs. Mae Dr Mancini wedi bod yn cydweithio â’r elusen ers 2013, lle dechreuodd ymchwilio i

ffyrdd o gefnogi gwaith cŵn sy’n gallu canfod arogl canser a chlefydau eraill o gyfansoddion anweddol yn hylifau’r corff, megis wrin, chwys neu anadl.

Un o ganfyddiadau allweddol y treialon oedd darganfod bod cŵn fwy na 90% yn ddibynadwy wrth arogl i’r cyfansoddion - gyda chyfradd canfod well na phroffion clinigol sy’n bodoli eisoes.

Mae Clara wedi dylunio rhyngwyneb sy’n galluogi’r ci i gyfleu nid yn unig a yw sampl yn bositif neu’n negatiff, ond hefyd pa mor siŵr ydyw fod y sampl yn cynnwys celloedd canseraidd. Gall hyn fod yn bwysig iawn, yn enwedig o ran canfod canser yn gynnar.



“ Yn y pen draw, bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at yr ymdrechion parhaus i ddatblygu ‘ffroenau artiffisial’ sy’n gallu cynnal y profion ac y gellir eu defnyddio’n eang. ”

*Dr Clara Mancini*

Diolch i gymorth anhygoel cyn-fyfyrwyr Y Brifysgol Agored, codwyd dros £90,000 sydd wedi rhoi cyfle gwych i Clara ddatblygu ei thîm drwy recriwtio cynorthwydd ymchwil newydd. Bydd hyn yn golygu y gellir ymgymryd â hyd yn oed mwy o waith ar y prosiect hwn sy’n achub bywydau.



I ddysgu mwy am Labordy Rhyngweithio Cyfrifiadurol i Anifeiliaid Y Brifysgol Agored ewch i [www.open.ac.uk/blogs/ACI](http://www.open.ac.uk/blogs/ACI)

# CRONFA YSGOLORIAETHAU CYN-FILWYR ANABL

© Crown copyright 2013

Mae un o bob pum cyn-filwr yn cael ei ryddhau o wasanaeth milwrol o ganlyniad i anaf sy'n arwain at anabledd. Yn 2017, gwnaeth y Brifysgol lansio Cronfa Ysgoloriaethau Cyn-filwyr Anabl, sef y cyntaf o'i bath yn y DU. Nod y Gronfa yw sicrhau, os yw'r anabledd yn golygu na all y cyn-filwyr wasanaethu mwyach, eu bod yn cael eu grymuso i ail-lunio eu dyfodol eu hunain drwy bŵer addysg. Bydd y Gronfa hefyd yn darparu cymorth cofleidiol am ddim a gwasanaeth cyngor ar yrfaedd.

**Diolch i haelioni anhygoel rhoddwyr, mae dros £1.68 miliwn wedi'i godi yn barod.**

Dyweddodd cennad y Gronfa Ysgoloriaethau Cyn-filwyr Anabl, Marsial yr Awyrlu Syr Christopher Coville KCB BA, "I'r rhai sydd wedi gadael eu gyrfaoedd milwrol yn annisgwyl o ganlyniad i anaf, bydd y math hwn o gymorth yn amhrisiadwy o ran helpu'r unigolion hynny i bontio."

Caeodd y Gronfa ar gyfer ceisiadau eleni ar 1 Awst 2018 a chaiff y 55 o fyfyrwyr cyntaf eu croesawu ym mis Hydref. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb haelioni cyn-fyfyrrwyr, cefnogwyr a chyfeillion y Brifysgol.

Efallai y byddwch yn cofio stori John Spence y gwnaethom ei rhannu â chi yn 2017. Mae'n bleser gennym roi gwybod i chi bod John wedi ennill gwobr Dysgwr y Flwyddyn i Oedolion yng Nghymru yn seremoni wobrwyo Ysbrydoli!

Cafodd John ei fwlio yn yr ysgol am nad oedd yn gallu darllen, ac erbyn iddo adael yn 16 oed, roedd cyn lleied o hyder ganddo, datblygodd atal dweud.



**Rwy'n siŵr y bydd Cyn-filwyr Anabl yn cydnabod y cyfleoedd sylweddol y mae'r Brifysgol Agored yn eu cynnig, sydd wedi'u galluogi gan y cynllun hwn.**

*Is-Gadfridog Richard Nugee, Pennaeth Amddiffyn Pobl yn y Weinyddiaeth Amddiffyn*

Ymunodd John â'r Fyddin, gan wasanaethu yn Affganistan ac Irac fel meddyg a bu'n mwynhau gyrfa filwrol lwyddiannus, er nad oedd wedi dweud wrth neb am ei anawsterau darllen ac ysgrifennu.

Ar ôl gadael y Fyddin, dechreuodd John weithio ar y môr fel Parafeddyg cefnfor. Yn y rôl honno, cafodd ei gyfeirio at Y Brifysgol Agored gan hyfforddwr, lle darganfuwyd bod ganddo ddyslecsia difrifol, ADHD, a syndrom Mears-Irlen, sy'n golygu bod yr ymennydd yn ei chael hi'n anodd prosesu gwybodaeth weledol ac mae'n effeithio ar allu unigolyn i ddarllen.

"Daeth Y Brifysgol Agored yn deulu i mi. Cefais help ar bob cam – trefnu cyfrifiadur a meddalwedd i mi, a'r llyfrau roedd eu hangen arnaf. Roedd bawb yn gefnogol. Doeddwn i erioed wedi cael y profiad hwnnw o'r blaen."

**Cadwch  
lygad allan  
am fanylion am  
ein mis Cyn-  
filwyr ym mis  
Tachwedd**

[giving.open.ac.uk](http://giving.open.ac.uk)

**CEFNOGIR Y GRONFA  
YSGOLORIAETHAU CYN-FILWYR  
ANABL YN GAREDIG GAN:**

BAE Systems  
Funded by the Chancellor using LIBOR funds  
ABF (The Soldiers' Charity)  
The William Allen Young Charitable Trust  
Constance Travis Charitable Trust  
The Simon Gibson Charitable Trust  
The Veterans' Foundation

**A MWY NA 1,100 O GYN-FYFYRWYR,  
CYFEILLION A CHEFNOGWYR Y  
BRIFYSGOL AGORED GAN GYNNWYS:**

Gordon Dickinson  
John Duncan  
David Godson

Colin Hume  
Dr. Michael James  
Doreen and Anthony  
Van West



# DOD AT EIN GILYDD I GOFIO EIN CEFNOGWYR



Mae Gardd Waddol Y Brifysgol Agored, a gafodd ei chyflwyno yn wreiddiol yn 2013, yn brawf gweledol o ddiolch i'r rhai sydd wedi cofio'r Brifysgol gyda rhodd hael yn eu Hewyllys. Ddydd Mercher, 13 Gorffennaf, gwnaeth staff, cyn-fyfyrrwyr, teulu a chyfeillion ymgasglu yn yr Ardd Waddol, yng nghanol campws Milton Keynes, i gofio ac anrhydeddu'r cefnogwyr gwaddol y derbyniwyd eu rhoddion yn 2017.

Cyn dadorchuddio placiau coffa eleni, rhannodd Lucian Hudson (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) wedi rywfaint o gefndir ar y 26 o roddwyr a oedd yn cael eu cofio. "Roedd gan bob un ohonynt eu rhesymau eu hunain dros gofio'r Brifysgol Agored yn hael, roedd llawer ohonynt wedi bod ar daith eu hunain gyda'r Brifysgol Agored - roedd rhai ohonynt ymhlith ein disgyblion "arloesol", yn ymuno â'r Brifysgol yn ystod ei blynedd cynnar, gan helpu i chwyldroi'r byd dysgu. Mae pob un ohonynt wedi arwain y ffordd i genedlaethau o fyfyrwyr i ddod."

Un o'r rhoddwyr a oedd yn cael ei chofio ar y diwrnod oedd Betty Faith Courtin. Dechreuodd Betty astudio gyda'r Brifysgol Agored yn 80 oed, gan raddio 7 mlynedd yn ddiweddarach gyda gradd yn y Dyniaethau. Dywedodd merch Betty, Diana, wrthym fod ei mam yn fenyw anhygoel, deallus ac ysbrydoledig. Graddiodd Betty yn Versailles, Ffrainc, ar yr un dyddiad y gwnaeth ei gŵr ofyn iddi ei briodi 68 mlynedd yn gynharach. Roedd graddio Betty yn achlysur 'emosiynol ac eithriadol' iddi hi a'i theulu. Cafodd rhodd Betty ei gadael er mwyn cydnabod ei dysg, ei boddhad a'i mwynhad a'r cyfleoedd cyfoethog y gwnaeth Y Brifysgol Agored eu cynnig iddi yn ystod ei bywyd.

Cafodd Geoff Gay hefyd ei gofio yn y seremoni. Roedd Geoff yn fyfyrwr a thiwtor ymroddedig yn Y Brifysgol Agored, ac roedd yn frwd iawn dros addysg, ac yn ymrwymedig iddi. Mae rhodd hael iawn Geoff yn cael ei defnyddio i gefnogi ac annog myfyrwyr Mathemateg ac i ehangu cyfranogiad mewn

Addysg Uwch. Roedd Geoff yn credu'n gryf y dylai addysg fod yn agored i bawb o bob cefndir cymdeithasol a bydd ei rodd yn gwneud gwahaniaeth anhygoel, gan sicrhau y bydd hyn yn digwydd.



**Cynhelir digwyddiad cyflwyno y flwyddyn nesaf ddydd Gwener 12 Gorffennaf. Os hoffech chi a gwestai ymuno â ni, cysylltwch â'n tîm digwyddiadau ar **01908 858311** neu e-bostiwch **oudo-events@open.ac.uk****

Mae rhodd addysg yn waddol pwerus iawn; mae'n trawsnewid bywydau ac yn agor drysau at ddyfodol gwell. Mae pob un o'n rhoddwyr wedi chwarae rhan yn y gwaith o sicrhau bod Y Brifysgol Agored yn cadw at ei chenhadaeth, sef bod yn agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau; gan ein helpu i fod yn agored i bawb heddiw, ac ar gyfer cenedlaethau i ddod. Mae rhodd mewn Ewyllys yn sicrhau nad yw prinder arian, anabledd nac amgylchiadau anodd yn atal pobl rhag dysgu gyda ni.

Os ydych eisoes wedi cofio am y Brifysgol yn eich Ewyllys, diolch yn fawr iawn i chi. Mae eich Ewyllys yn bersonol iawn, ond os byddech yn hapus i rannu eich bwriad â ni, hoffem gydnabod hyn drwy eich gwahodd i un o'n digwyddiadau arbennig a sicrhau bod gennych y wybodaeth ddiweddaraf am sut mae gwaddol yn newid bywydau.



**Os hoffech wybod mwy am sut y gallai rhodd yn eich Ewyllys gefnogi myfyrwyr Y Brifysgol Agored yn y dyfodol, ewch i **giving.open.ac.uk** neu ffoniwch Emily Portch ar **01908 659141****

# MAE DYFODOL EIN CEFNFOROEDD BELLACH YN DIBYNNU ARNOM NI

Rydym yn byw mewn cyfnod hollbwysig. Gallai'r niwed y mae dynion yn ei wneud i'r blaned newid cydbwysedd natur i raddfa mor beryglus yn fuan, fel y gall fod yn amhosibl ei wrthdroi.

Prosiect Deep Blue yw menter hollbwysig Y Brifysgol Agored sy'n ein helpu i ddysgu mwy am gyflwr bregus ein cefnforoedd a'r effaith bryderus y mae dynion yn ei chael ar yr amgylchedd bregus hwn, a thynnwyd sylw ar hyn yng nghyfres lwyddiannus ddiweddar y BBC, Blue Planet II.

Dr Pallavi Anand a'r Athro Mark Brandon, dau o'r academyddion mwyaf blaenllaw a oedd yn gynghorwyr arbenigol drwy gydol y broses o gynhyrchu Blue Planet II, sy'n arwain *Prosiect Deep Blue*. Bydd rhoddwyr, gan gynnwys cyn-fyfyrwyr, yn helpu i gefnogi dwy fenter bwysig.

## Cyllid ar gyfer myfyriwr ymchwil PhD

Bydd y cyllid yn talu costau myfyriwr PhD i weithio'n uniongyrchol gyda'r Brifysgol Agored yn y gwaith o asesu effaith yr hinsawdd ar esblygiad ffytoplancton morol. Ffytoplancton yw rhai o organebau pwysicaf ein planed. Nhw yw sail y gadwyn fwyd morol ac maent yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o dynnu carbon deuocsid o'r atmosffer. Maent yn cynhyrchu tua hanner ocsigen y Ddaear - yr un faint â holl blanhigion y tir.

Ychydig dros dair miliwn o flynyddoedd yn ôl, yn ystod y cyfnod daearegol Pliosenaid, roedd tymheredd cyffredinol arwyneb y môr ychydig o raddau'n uwch nag ydyw ar hyn o bryd, roedd y caennau iâ yn llai o lawer yn rhanbarth yr Arctig ac roedd y lefelau carbon deuocsid atmosfferig yn debyg i lefelau heddiw

– sy'n golygu bod y cyfnod daearegol hwn yn analog ar gyfer ein dyfodol.

Mae arbenigwyr Y Brifysgol Agored yn ymchwilio i'r effaith a gafodd y cyfnod Pliosenaid ar amrywiaeth ffytoplancton a'r ffordd y cafodd ffactorau hinsawdd allweddol effaith ar eu twf a'u datblygiad.

Mae'r prosiect yn gwneud gwaith ymchwil helaeth i beth yn union y mae cynhesu byd-eang yn ei wneud i'n capiau iâ pegynol. Mae hyn yn cynnwys ymchwil gymharol rhwng y gorffennol a'r presennol drwy astudio swigod atmosfferig sydd wedi'u dal yn y caennau iâ pegynol am y filiwn o flynyddoedd diwethaf.

## Cefnogi Myfyriwr Israddedig

Ail elfen Prosiect Deep Blue yw cefnogi 300 o fyfyrwyr israddedig ym maes Gwyddorau yr Amgylchedd, y Ddaear ac Ecosystemau, drwy ariannu eu hastudiaethau maes hollbwysig yn y pynciau hyn. Daw hyn i gyfanswm o £142 fesul myfyriwr bob blwyddyn sy'n gost astudio ychwanegol sy'n rhwystr i lawer o fyfyrwyr weithiau.

Fel y gwyddoch, mae'r Brifysgol Agored yn gwneud popeth a allwn er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw fyfyrwr ei atal rhag gwreiddu ei freuddwyd oherwydd ei amgylchiadau. Wedi'r cyfan, gallai'r myfyriwr hyn achub ein planed yn y dyfodol!

Cafodd y prosiect ei lansio ym mis Gorffennaf 2018 ac mae eisoes wedi cael cymorth gan 1,000 o roddwyr ac wedi codi mwy na £45,000. Diolch yn fawr iawn i'n rhoddwyr hael. Mae eich cyfraniadau yn hollbwysig i sicrhau bod y prosiect hwn yn llwyddo.



Os hoffech roi, ewch i  
[open.ac.uk/donatenow](https://open.ac.uk/donatenow)

# HER ANHYGOEL I UN O RADDEDIGION Y BRIFYSGOL AGORED, ANTOINE COUSOT



Gadawodd Antoine Cousot yr ysgol yn 17 oed, heb unrhyw gymwysterau, er mwyn teithio'r byd. Cafodd ei ysbrydoli i astudio gyda'r Brifysgol Agored gan gyd-forwr a oedd yn astudio gyda'r Brifysgol Agored tra oedd ar y môr. "Sylweddolais ei bod hi'n bosibl

dychwelyd i'r ysgol a dilyn y cyrsiau gyda'r Brifysgol Agored tra roeddwn yn gweithio o amgylch y byd yn hwylio, a thaniodd rhywbeth yn fy meddwl," meddai Antoine ar ddechrau ei daith gyda'r Brifysgol Agored. "Roeddwn wedi cwblhau fy ngradd Baglor, fy ngradd Meistr ac roeddwn yn barod i ddechrau ar y PhD, ond roeddwn yn cymryd rhan yn y ras y Glôb Aur, ac allaf i ddim gwneud y ddau, felly byddaf yn gwneud y PhD ar ôl hynny!"

Gwnaeth astudio Gwyddorau'r Ddaear gyda'r Brifysgol Agored wella sgiliau a gwybodaeth Antoine fel capten. Nawr mae'n defnyddio'r hyn a ddysgodd er mwyn hwylio o amgylch y byd ar ei ben ei hun, i godi arian er mwyn i ragor o fyfyrwyr fwynhau'r cyfleoedd a gafodd yntau.

Mae Antoine yn ymgymryd â thaith unigryw sydd â thair elfen gyffrous. Mae'n cymryd rhan yn y Golden Globe Race 2018, wrth wneud gwaith ymchwil hollbwysig i ddsbarthiad plastig a phail yn ein cefnforoedd a chodi arian ar gyfer Cronfa Ysgoloriaeth Antoine Cousot.

## Y Ras

Yn 1969, Syr Robin Knox-Johnston oedd y cyntaf i hwylio ar ei ben ei hun o amgylch y byd heb stopio. Mae'r Golden Globe Race yn dathlu 50 mlynedd ers iddo wneud hynny. Ar 1 Gorffennaf 2018, gadawodd y cychod Les Sables-d'Olonne,

Ffrainc ar fordaith i hwylio ar eu pen eu hunain o amgylch y byd heb stopio heibio i'r pum Penrhyn Gwych

a dychwelyd i'r man cychwyn. Mae'n rhaid i'r cyfranogwr ddefnyddio cyfarpar a chychod sy'n debyg i'r rhai oedd ar gael i Syr Robin yn y ras wreiddiol, sy'n golygu hwylio heb dechnoleg fodern na chymhorthion llywio â lloeren.

## Yr Ymchwil

Wrth iddo wynebu'r elfennau ar ei ben hun, bydd Antoine yn casglu samplau sy'n hanfodol i ddau brosiect ymchwil newydd Y Brifysgol Agored sy'n ymwneud â phlastig a phail.

Mae'r defnydd o blastig yn ein bywydau bob dydd law yn llaw â gwastraff nad yw'n cael ei reoli, yn golygu bod tua 5 miliwn o dunelli metrig o blastig yn mynd i mewn



© Christophe FAVRUEA / GGR 2018

“The OU has definitely changed my life, there's the education, there's a lot of opportunity open for you. It gives you more confidence and more self-esteem which is rather important. If you believe in you, you can do everything in life, you can even sail around the world without equipment.” Antoine Cousot



i'n cefnforoedd bob blwyddyn, gan gael effaith andwyol ar ecosystemau morol. Mae'r llygredd plastig hwn mor ddifrifol, bydd yn gadael marc ar y cyfnod daearegol presennol hwn: yr Anthroposen. Dyma'r cyfnod lle mae gweithgarwch dynol wedi cael yr effaith fwyaf ar yr hinsawdd a'r amgylchedd.

Daw ein gwybodaeth gyfredol am lygredd plastig o blastigau-macro (gronynnau sy'n fwy na 5mm) yn bennaf, mewn ardaloedd arfordirol, er mae rhywfaint o waith ymchwil cefnfor agored yn dechrau cael ei gynnal. Pan fyddant yn y môr, mae plastigau-macro yn diraddio ac yn datgymalu, gan arwain at ronynnau plastig llai: plastigau-micro (1-5mm) a phlastigau-nano (llai na 1mm).

Felly, caiff y samplau y mae Antoine wedi eu casglu eu defnyddio ar gyfer y prosiectau canlynol:

- Mae'r prosiect cyntaf yn ystyried sut mae tocsinau plastigau yn effeithio ar iechyd dynol drwy gasglu samplau plastigau nano a micro yn ystod y fordaith. O hynny, gall ymchwilwyr werthuso pa mor eang yw'r dosbarthiad a pha fathau o blastig sy'n llygru ein cefnforoedd.
- Mae'r ail brosiect yn ystyried gwasgaru gronynnau paill sy'n hanfodol ar gyfer atgynhyrchiad planhigion. Mae'r ymchwil hwn yn cynrychioli set data unigryw

a fydd yn helpu i ddehongli'r systemau a'r llwybrau sy'n arwain at gludo paill am bellter hir yn ystod atgynhyrchiad a ffosileiddiad.

## Y Manteision

Trydydd nod y daith yw cael cymorth ar gyfer Cronfa Ysgoloriaethau Antoine Cousot. Cronfa sydd â'r nod o godi arian i roi cyfle i fwy o fyfyrwyr drawsnewid eu dyfodol, drwy addysg hyblyg, ymarferol yng Ngwyddorau yr Amgylchedd, y Ddaear ac Ecosystemau.



**Gwnaeth Y Brifysgol Agored newid pa mor agored ydwyf i'r byd rydym yn byw ynddo. Daeth y brifysgol ataf gyda'r adnoddau cywir ar yr adeg gywir, a'm helpu i wireddu fy mreuddwydion. Nid yw addysg yn rhywbeth rydych yn ei wneud rhwng 12 ac 18 oed yn unig, mae'n broses barhaus dwy gydol eich oes. ♥♥**



I ddilyn taith Antoine a chefnogi'r gronfa, ewch i [giving.open.ac.uk](https://giving.open.ac.uk)

## DIGWYDDIADAU 2019

Byddwn yn cysylltu â chi gyda manylion am ddigwyddiadau i ddathlu ein pen-blwydd. Gobeithio y byddwch yn gallu ymuno â ni.



Os hoffech roi rhodd i helpu i **Agor y dyfodol** ar gyfer pob dysgwr, llenwch y ffurflen rhoddion a amgaeir gyda'ch cylchgrawn neu rhowch ar-lein drwy fynd i [giving.open.ac.uk](https://giving.open.ac.uk)

### Development Office

The Open University,  
Walton Hall, Milton Keynes,  
United Kingdom MK7 6AA

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol neu i roi, cysylltwch â'r canlynol:

**Emily Portch**  
**01908 655044**  
**[giving@open.ac.uk](mailto:giving@open.ac.uk)**



Mae'r Brifysgol Agored wedi'i chorffori drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), yn elusen eithriadig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Mae'r Brifysgol Agored wedi'i hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae ein polisi preifatrwydd yn [giving.open.ac.uk/donor-care](https://giving.open.ac.uk/donor-care) yn nodi sut mae'r Swyddfa Datblygu yn cael gafael ar eich data ac yn eu rheoli, eu defnyddio a'u diogelu.